


# Y Sielo



Mae'r Cello yn aml wedi'i ysgrifennu yn Bass Clef, weithiau mewn cleff Tenor ar gyfer darnau uwch

Mae gan y soddgrwth bedwar llinyn, wedi'u tiwnio i C, G, D ac A.

Mae soddgrythorion yn rhoi rosin ar y bwa i roi mwy o "afael" iddo ar y llinynnau.

Yn 2014, gosododd Carel Henn, soddgrythor o Dde Affrica, record am y marathon soddgrwth hiraf, gan chwarae am 26 awr.

Mae soddgrythau modern yn gorffwys ar bin pen, i gefnogi pwysau'r offeryn.

Mae'r enw arall ar y soddgrwth, sef "y sielo" yn fyr am fiolonsielo, sy'n cyfieithu i "feiol fawr fach".

Yn 1998, gosododd 1,013 o soddgrythorion record byd am yr ensemble soddgrwth mwyaf yng 'Nghyngerdd y 1,000 Soddgrythor' a gynhaliwyd yn Kobe, Siapan.

Mae'r soddgrwth wedi bod o gwmpas ers tua 1500.

## Y FFEITHIAU

Mae pont y soddgrwth yn dal y llinynnau uwchben y soddgrwth i ganiatáu i ddirgryniadau'r llinynnau drosglwyddo i frig yr offeryn a'r post sain y tu mewn.

Ymysg y soddgrythorion gorau sydd o gwmpas heddiw mae Sol Gabetta, Yo-Yo Ma, Steven Isserlis a Natalie Clein.

Enw'r soddgrwth hynaf y byd yw "Y Brenin". Fe'i gwnaed yng nghanol y 1500au gan Andrea Amati ac mae ar ddangos yn yr Amgueddfa Gerdd Genedlaethol yn Ne Dakota.

Mae llinynnau'r soddgrwth yn cael eu gwneud o ddeunyddiau metelig fel titaniwm, ond ar un adeg roeddent yn cael eu gwneud allan o gwt (coluddion defaid a geifr).

Mae'r glud sy'n cael ei ddefnyddio i wneud soddgrythau yn cael ei wneud o feinwe anifail, sy'n caniatáu i'r glud grebachu ac ehangu heb ddifrodi'r offeryn.

Roedd gan sawl soddgrwth baróc bum llinyn, yn hytrach na phedwar.